

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL
(Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol)**

16 Mehefin 2021

Yn Bresennol: Cynghorydd P Baker BEM, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Dr M Havard, Cynghorydd P Harries, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Dr RM Plummer, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Williams.

[Cyraeddodd y Cynghorydd M Evans adeg diolchiadau'r Cadeirydd (gweler Cofnod 3).]

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00a.m. – 10.25a.m.)

1. Ethol Cadeirydd

Dyweddodd y Dirprwy Gadeirydd, oedd wedi cymryd y Gadair ar gyfer yr eitem hon yn unig, bod un enwebiad wedi dod i law am y swydd Cadeirydd, sef y Cynghorydd P Harries.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ethol y Cynghorydd P Harries yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

[Daeth y Cynghorydd P Harries i'r Gadair a bu'n llywyddu am weddill y cyfarfod.]

2. Ethol Dirprwy Gadeirydd

Dyweddodd y Cadeirydd mai un enwebiad oedd wedi dod i law am y swydd Dirprwy Gadeirydd, sef y Cynghorydd Mrs D Clements.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ethol y Cynghorydd Mrs D Clements yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

3. Diolchiadau'r Cadeirydd

Diolchodd y Cynghorydd P Harries i'r Aelodau am roi eu hymddiriedaeth ynddo am flwyddyn arall. Dywedodd mai braint oedd cynrychioli'r Awdurdod, ac y byddai, gyda chymorth yr Aelodau, yn cyflawni ei ddyletswyddau hyd eithaf ei allu.

Dymunodd ddiolch i staff yr Awdurdod, yn arbennig i'r Prif Weithredwr ac i'r tîm Gwasanaethau Democraataidd, am eu cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, a hefyd i'r Dirprwy Gadeirydd, y Cynghorydd D Clements. Dywedodd y Cadeirydd bod y llynedd wedi bod yn flwyddyn anodd oherwydd y Pandemig Covid a bod y ffyrdd o weithio wedi newid yn



sylweddol. Serch hynny, roedd yr Awdurdod wedi wynebu'r heriau a dod o hyd i ffyrdd newydd o ddsbarthu gwybodaeth a gweithio gyda'r cyhoedd a phartneriaid yr Awdurdod. Roedd yn cydymdeimlo'n fawr â'r rhai oedd wedi colli anwyliaid yn sgîl y pandemig, ac yn gobeithio y byddai'r rhaglen frechu yn golygu y bydd pethau'n dychwelyd i rhyw fath o normalrwydd cyn hir.

Gan droi at y dyfodol, roedd y Cadeirydd yn edrych ymlaen at barhau yn Gadeirydd Parciau Cenedlaethol Cymru ac yn Is Gadeirydd Fforwm Cadeiryddion Parciau Cenedlaethol y DU. Hefyd at weithio gyda'r Gweinidog newydd Newid Hinsawdd, Julie James AoS, oedd â phortffolio yn cynnwys y Parciau Cenedlaethol. Dywedodd bod y pandemig wedi tanlinellu gwerth y Parciau Cenedlaethol, a'i fod ar ddeall bod cynlluniau ar droed i sefydlu pedwerydd Parc Cenedlaethol yng Nghymru ym Mryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, ac yn gobeithio y gellid ystyried sefydlu Parc Cenedlaethol Morol yn y dyfodol. Pynciau eraill o bwys oedd newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth, a'r gobaith oedd y gallai'r Awdurdod gyfrannu at yr uwchgynhadledd COP26 a gynhelir cyn hir fel rhan o'r teulu o Barciau Cenedlaethol. Gan ddyfynnu'r dywediad "Yn y pen draw, byddwn ond yn cadw'r hyn a garwn; byddwn ond yn caru yr hyn a ddeallwn, a byddwn ond yn deall yr hyn a ddysgw'n", roedd yn grediniol bod yr Awdurdod yn mynd i'r afael â'r materion yr oedd y cyhoedd yn eu deall ac yn eu mwynhau. Daeth y Cadeirydd â'i anerchiad i ben drwy ddweud ei fod yn dal yn bwriadu cychwyn ar ei daith ar hyd Llwybr yr Arfordir a'i fod yn croesawu unrhyw Aelod oedd yn dymuno ymuno ag ef ar y daith.

4. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Dr R Heath-Davies a'r Cynghorydd S Yelland.

5. Datgelu buddiannau

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

6. Aelodaeth o Bwyllgorau a Sefydliadau Allanol

Cyn cyflwyno ei hadroddiad i'r Aelodau, estynnodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democraataidd ei llongyfarchiadau i'r Cynghorwyr Harries a Mrs Clements ar gael eu hail-ethol yn Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod. Dywedodd mai pleser oedd cydweithio gyda hwy dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ychwanegu ei bod yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'r ddau dros y misoedd sydd i ddod.

Gan droi at ei hadroddiad, atgoffodd yr Aelodau ei bod yn arferol yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol i adolygu aelodaeth Pwyllgorau a Grwpiau'r Awdurdod, ynghyd â chynrychiolwyr yr Awdurdod ar gyffr allanol. Gofynnwyd am i argymhelliad 2 gael ei ddiwygio i nodi hefyd bod



y Cynghorydd Clements wedi'i phenodi yn gynrychiolydd yr Awdurdod ar Croeso Sir Benfro fis Tachwedd 2020 am gyfnod o 2 flynedd neu hyd nes bod ei thymor yn ei swydd ar yr Awdurdod wedi dod i ben.

Ychwanegodd nad oedd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion na'r Pwyllgor Apeliadau wedi'u cynnwys yn ei hadroddiad gan y byddai eu cyfansoddiad yn cael ei gadarnhau yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod pan fyddai Cadeiryddion y Pwyllgorau, oedd yn aelodau o'r Pwyllgorau dan sylw, yn hysbys erbyn hynny.

Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau, cadarnhaodd y swyddog bod y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu'r Aelodau yn cynnwys 6 Aelod Cyngor Sir Penfro a 3 Aelod a benodir gan Lywodraeth Cymru ac y dylai'r disgrifiad o'r Pwyllgor Safonau nodi pedwar Aelod Annibynnol.

Hefyd gofynnodd yr Aelodau am i gynrychiolaeth yr Awdurdod ar y Pwyllgor leuenctid ac ar y Fforwm Gwirfoddolwyr fod yn gynwysedig ar y rhestr, a chytunwyd i hyn.

PENDERFYNWYD:

- (a) cytuno ar yr aelodaeth a ganlyn ar yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, ei Bwyllgorau a'i Grwpiau:

YR AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

Pob Aelod

Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

Pob Aelod

Y PWYLLGOR ARCHWILIO AC ADOLYGU GWASANAETHAU CORFFORAETHOL (6 CSP, 3 LIC)

Y Cynghorydd P Baker	Mrs S Hoss
Y Cynghorydd Mrs D Clements	Dr R Heath-Davies
Y Cynghorydd M James	Mr GA Jones
Y Cynghorydd P Kidney	
Y Cynghorydd R Owens	
Y Cynghorydd M Williams	

Y PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL (6 CSP, 3 LIC)

Y Cynghorydd K Doolin	Dr M Havard
Y Cynghorydd ML Evans	Mrs J James
Y Cynghorydd P Harries	Dr RM Plummer
Y Cynghorydd PJ Morgan	
Y Cynghorydd A Wilcox	



Y Cynghorydd S Yelland

Y PWYLLGOR PERSONÉL (6 CSP, 3 LIC)

Y Cynghorydd Mrs D Clements	Dr R Heath-Davies
Y Cynghorydd ML Evans	Mrs J James
Y Cynghorydd M James	Mr GA Jones
Y Cynghorydd PJ Morgan	
Y Cynghorydd A Wilcox	
Y Cynghorydd S Yelland	

FFORWM GWEITHWYR (4 CSP, 2 LIC)

Y Cynghorydd P Harries	Mrs S Hoss
Y Cynghorydd P Kidney	Dr RM Plummer
Y Cynghorydd R Owens	
Y Cynghorydd M Williams	

GRŴP GWELLIANT PARHAUS (4 Aelod)

Cadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol
Cadeirydd y Pwyllgor Adolygu Gweithredol
Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu

PWYLLGOR CEFNOGI A DATBLYGU AELODAU (6 CSP, 3 LIC)

Y Cynghorydd Mrs D Clement	Mrs S Hoss
Y Cynghorydd K Doolin	Mrs J James
Y Cynghorydd M James	Dr RM Plummer
Y Cynghorydd P Kidney	
Y Cynghorydd A Wilcox	
Y Cynghorydd M Williams	

Y PWYLLGOR CRONFA DATBLYGU CYNALIADWY (4 CSP, 2 LIC)

Y Cynghorydd K Doolin	Dr M Havard
Y Cynghorydd M James	Dr RM Plummer
Y Cynghorydd M Williams	
Y Cynghorydd S Yelland	

PANEL PENODI Y PWYLLGOR SAFONAU

Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol
Y Cynghorydd S Yelland
Un Aelod lleyg

- (b) nodi'r aelodaeth o'r Pwyllgor Safonau a chynrychiolaeth yr Awdurdod ar Croeso Sir Benfro:



Y PWYLLGOR SAFONAU (2 CSP; 1 LIC ynghyd â phedwar Aelod Annibynnol)

Y Cynghorydd PJ Morgan	Dr RM Plummer	Mr J Daniels
Y Cynghorydd R Owens		Mr P Davies
		Ms W Taylor
		Mrs V Tomlinson

CROESO Sir Benfro (Un Aelod)
Y Cynghorydd Mrs D Clements

- (c) cymeradwyo'r gynrychiolaeth ganlynol ar grwpiau mewnol ar gyfer 2021/22:

PWYLLGOR IEUENCTID (Un Aelod a enwir)
Mrs S Hoss

FFORWM GWIRFODDOLWYR
Y Cynghorydd M James

- (d) cymeradwyo'r gynrychiolaeth a ganlyn ar gyrff allanol ar gyfer 2021/22:

PWYLLGOR GWEITHREDOL PARCIAU CENEDLAETHOL Y DU
Cadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol
Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol (Dirprwy)

PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU
Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol

CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU

Y CYNGOR
Y Cynghorydd M James
Cadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol (Dirprwy)

Y BWRDD GWEITHREDOL
Cadeirydd Parciau Cenedlaethol Cymru

CYD-GYNGOR CYMRU
Y Cynghorydd M Williams
Y Cynghorydd R Owens (Dirprwy)

CYNGOR PARTNERIAETH CYMRU
Cadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol

YMGYRCH DROS BARCIAU CENEDLAETHOL (Un Aelod)
Mr O Wyn (Eryri ar ran PCC)
Dr M Havard (Aelod Cyswllt)



CYNGHRAIR Y PARCIAU CENEDLAETHOL (*Un Aelod*)

Dr M Havard

GRŴP YMGYNGHOROL/GRŴP ARFORDIR BAE ABERTEIFI

Y Cyngorydd M James

Y Cyngorydd P Harries (*Dirprwy*)

PWYLLGOR YMGYNGHOROL PORTHLADD ABERDAUGLEDDAU

(*Un Aelod a Dirprwy*)

Y Cyngorydd R Owens

Y Cyngorydd S Yelland (*Dirprwy*)

FFORWM MYNEDIAD LLEOL SIR BENFRO (*Un Aelod*)

Y Cyngorydd P Harries

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR SAUNDERSFOOT

Y Cyngorydd P Kidney

**GWEITHGOR AGREGAU RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU –
FFORWM AELODAU'R DATGANIAD TECHNEGOL RHANBARTHOL**

(*Un Aelod a Dirprwy*)

Y Cyngorydd M James

Dr M Havard (*Dirprwy*)

PWYLLGOR YMGYNGHOROL COLEG SIR BENFRO

Y Cyngorydd M James

YMDDIRIEDOLAETH PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO

(*Dau Aelod*)

Y Cyngorydd P Harries

Dr M Havard

GRŴP CYNGHORI PARTH CADWRAETH MOROL SKOMER (*Un
Aelod*)

Y Cyngorydd P Harries

- (e) cadarnhau cyfansoddiad y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apeliadau yn y cyfarfod nesaf pan fyddai pob Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd yr amryfal Bwyllgorau wedi cael eu hethol.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2021 heb eu diwygio.

